

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2021 Rhif 465



Blwyddyn Newydd Dda i'n Holl Ddarllenwyr

Byw mewn Gobaith

Wrth ffarwelio ag 2020, blwyddyn o drallod ac o ofid Covid, rhaid byw mewn gobaith y bydd 2021 yn flwyddyn well er nad yw'r rhagolygon, yn y tymor byr o leiaf, yn awgrymu felly.

Er ein bod yn ffodus i fyw mewn ardal wledig lled ddiogel, deallwn fod ambell i deulu wedi'u taro'n wael gyda'r clefyd a gobeithiwn am wellhad buan iddynt ac na chawn weld Covid-19 yn lledaenu'n gryf fel mewn rhannau eraill o'r wlad. Gobeithiwn y bydd y brechlyn yn cyrraedd mewn da bryd.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar y cymorth sydd ar gael yn y gymuned i'w weld ar dudalen 2 o'r rhifyn hwn o'r papur. Diolch i'r rhai sy'n gwirfoddoli a hefyd i'r meddygon, nyrsys, gofawyr a gweithwyr allweddol sy'n haeddu pob clod am eu hymdrechion drosom.

Holwyd ambell un o'r gymuned am eu gobeithion am 2021.

Mae Ceri Morgan, Craig y Delyn, Tal-y-bont yn ofalwraig gyda Mencap ers wyth mlynedd gan roi cymorth i rai gydag anghenion arbennig. Oherwydd hyn, roedd ymhlith y cyntaf i gael ei brechu ar ddechrau Ionawr. "Dwi'n edrych ymlaen at fecso llai o hyn allan a dwi'n benderfynol o barhau i gadw'n heini a rhedeg mewn cystadlaethau fel ras 10 cilometr Cwm Elan.

Er ein bod fel teulu yn hapus iawn yn ein cartref presennol, dwi'n gobeithio y gallwn brynu tŷ yn Nhal-y-bont yn ystod y flwyddyn. Dwi'n gobeithio hefyd y gall ein merch Lela ail-gydio gyda'i hoff ddiddordeb sef marchogaeth ceffylau."

Mae Oisín Lludd yn ddisgybl ysgol sy'n byw ym Mont-goch. Ei brif obaith am 2021 yw: "gallu byw bywyd normal, heb orfod aros dau fetr o rywun neu wisgo masg. Mi fyswn wrth fy modd tasi'r COVID yn diflannu, gan ein gadael ni i barhau â'u bywydau. Trwy ffeindio triniaeth iddo a ffordd i alluogi i baw ei dderbyn mi fydd hyn yn digwydd. Ond, yn ogystal, rwy'n gobeithio y bydd cymunedau yn parhau'r un fath. Un o'r pethau positif a gawsom ni o'r pandemig oedd y gymuned, a sut roedden ni yn helpu cymdogion trwy eu cynorthwyo nhw gan siopa drostyn nhw a helpu siopau lleol. Roedd sawl enghraifft o hyn i'w weld

ar draws Cymru, ac mae'n hanfodol fod hyn yn parhau. Yn olaf rwy'n gobeithio y bydd pawb yn saff ac yn hapus yn y flwyddyn newydd. Wedi byw mewn ofn drwy lawer o'r flwyddyn, rwy'n gobeithio gweld newid, gyda phawb yn mwynhau amser gyda theuluoedd a ffrindiau, gan gadw'n saff ar yr un pryd."


Ffarmwr yw David Jones, Bwlchyddwyallt, ac mae yntau â barn bendant am 2021: "Gyda Phrydain ac Ewrop wedi dod i ryw fath o gytundeb o'r diwedd, does ond gobeithio bydd modd i amaethyddiaeth symud ymlaen gyda rhywfaint o hyder. Mae penderfyniadau mawr ger bron y llywodraeth, ond gobeithio na fyddant yn ddigon gwirion i greu mai plannu coed ym mhob man yw'r unig ateb i'r broblem o newid hinsawdd.

Er 'mod i ddim yn un am hel sioeau, rwy'n mawr obeithio y bydd modd i gynnal sioe Tal-y-bont eleni. Er yr ymdrech lew a wnaed llynedd i greu sioe ar y we, does dim yn curo bwrlwm a brwdfrydedd a welir yn y sioe go iawn.

Braf hefyd meddwl y bydd rhyw werth yn cael ei roddi ar y gwllan eleni - ond rhywsut, "dw i'n amau!"

Efallai fod y neges a fynegwyd gan Gareth y Llew Gwyn wrth un o'i gwsmeriaid olaf yn 2020 yn berthnasol i bob un ohonom: 'Dal i fyw, dal i greu'.

Y bugeiliaid yn gwyllo'u praid
(gweler tud. 5)



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henlllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwychweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Fal a Gwyn, gyda
Ceri yn dylunio.

Y golygyddion ar gyfer
rhifyn Chwefror fydd Llio
(lliorhys@yahoo.co.uk)
a Cathryn
(cat_y_foel@hotmail.com).

Y dyddiad cau yw 5
Chwefror a bydd y papur
ar werth ar 12 Chwefror.

Marwolaeth

Trist iawn yw cofnodi
marwolaeth Simon J.
Southworth Hughes,
Tal-y-bont. Hunodd yn dawel
ar y 10fed o Ragfyr 2020. Mab
y ddiweddar Elizabeth, a John
Hughes o Lerry Mills,
Tal-y-bont. Tad Seren a Joshua,
llysdad Ffion a Maeve, a thadcu
a llysdadcu. Gynt yn briod gyda
Gill (nee Bonas) a Kathy (nee
Murphy). Arbenigwr ar
weithiau mwyn plwm lleol a
thu hwnt, a hanesydd ac
archeolegydd diwydiannol.
Cynhaliwyd yr angladd ar 22
Rhagfyr. Cyfraniadau er cof, os
dymunir, at Elusennau Iechyd
Hywel Dda.

Bydd teyrnged yn
ymddangos yn rhifyn nesaf
Papur Pawb.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau
am gymorth ariannol
oddi wrth Gymdeithasau
a mudiadau gwirfoddol
lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd
a chopi o'r fantolen
ddiweddaraf at:

Y Clerc

Cyngor Cymuned
Llangynfelyn, Blaenddol,
Tre'r-ddol, Machynlleth,
Powys SY20 8PL

**Erbyn diwedd Ionawr 2021
fan bellaf.**

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN


Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Mae'r Cyfrifiad yn dod!

Diwrnod y Cyfrifiad yw 21 Mawrth 2021

Arolwg unigryw sy'n digwydd bob 10 mlynedd yw'r Cyfrifiad. Rhydd
ddarlun cyflawn o'r boblogaeth a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Fe
fydd y data anhysbys yn medru helpu llywodraethau o bob haen a
sefydliadau i bennu buddsoddiad mewn datblygiadau a gwasanaethau
a fyddai o fudd i'ch cymuned megis trafnidiaeth, addysg ac iechyd.
Mae'n bwysig nodi bydd y wybodaeth bersonol yn cael ei gadw yn
hollol gyfrinachol am ganrif.

Mae Huw Davies yn cael ei gyflogi fel Rheolwr Ymgysylltu'r
Cyfrifiad. Mae Huw yn gweithio yn eich cymuned chi ond hefyd yn
ehangach, o fewn Ceredigion a Phowys. Fe fydd yn ceisio cysylltu gyda
phobl yn y gymuned i drafod y cyfrifiad ac i ddarbwyll y rhai hynny
sydd yn bryderus neu yn wrthwynebus bod llenwi ffurflen y cyfrifiad
yn hawdd, bod help i'w gael a nad oes rheswm i beidio ei gwblhau.

Os ydych am gysylltu gyda Huw, ffoniwch ar 07452 945860 neu ar
ebost ar gareth.davies82@field.census.gov.uk. Y mae Huw yn barod i
gwrdd yn rhithiol â grwpiau neu gymdeithasau i gyflwyno a siarad am
y Cyfrifiad.

Grŵp Covid Tal-y-bont Y wybodaeth ddiweddaraf

Rydym ni yn dal yma

Os ydych chi neu rhywun chi'n nabod eisiau help gyda siopa a.y.b,
rydym ni yn dal i gadw rhestr o wirfoddolwyr sydd yn fodlon helpu.
Peidiwch â bod ofn galw arno ni

07794 180928 (Eryl), 07866 011296 (Jenny)

E bost: grwpcovidtalybont@gmail.com

Gobeithio bod y rhifau canlynol yn ddefnyddiol

- AGE Cymru** - Gall unrhyw un dros 50 ofyn am help.
Cysylltwch - 01970 615151
- Citizens Advice Ceredigion** - Cyswllt 01239 621974;
e-bost: enquiries@cabceredigion.org
- Credur Ceredigion** - Os ydych chi'n gofalu am rhywun ac yr
hoffech dderbyn cymorth /cefnogaeth ychwanegol gyda'r gofal
hwnnw neu dasgau cartref. Cysylltwch: 03330 143377;
e-bost: ceredigion@credu.cymru
- MIND Ceredigion** - Os ydych chi'n teimlo'n bryderus, yn isel eich
hysbryd, yn pryderu oherwydd y clo mawr neu'r firws. Cysylltwch
01970 626225 / 07958788172;
e-bost: info@mindaberystwyth.org
- West Wales Abuse Service** - Os ydych chi new rhywun chi'n
nabod yn cael ei gamdrin ac eisiau sgwrs / help yn gyfrinachol.
Cysylltwch 01970 625585, neu ar yn hwyr 08088 010800.
- Fferyllfa Tal-y-bont** - Gwasanaeth ar gyfer mân anhwylderau.
Mae brechiad fflw hefyd ar gael. Cysylltwch 01970 832297

argraffu da
am bris da


yl Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Cwis

Cynhaliwyd cwis rhithiol dros Zoom yn ddiweddar gan grŵp clonc Tal-y-bont, gyda Heulwen ac Ifan Astley yn fuddugol.

Yn Yr Ysbyty

Gobeithio dy fod ti Wyn Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont yn gwella wedi treulio'r Nadolig yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin.

Croeso Cynnes

Croeso cynnes iawn i chi Sian Stacey a Mark Carter sydd newydd symud i fyw i Ael y Bryn, Taliesin. Mae gan Sian a Mark gysylltiadau agos ag Ynys Enlli ar ôl gweithio yno ond maent bellach yn hapus ar y tir mawr ac yn edrych ymlaen i ymgartrefu a gweithio yng ngogledd Ceredigion.

Croeso hefyd i Oliver a Kylie sydd wedi symud i Maesglas, Pen-lôn, Tal-y-bont.

Pob hwyl i tithau Cian Dowsett, Is y coed, Tal-y-bont yn dy gartref newydd yn Aberystwyth.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Huw Evans, Cefngweiriog, Tre'r ddôl a Megan Jones, Llanarth ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i chi eich dau.

Dymuniadau gorau hefyd i Michelle James, Tre'r ddôl, a Jason Danter, hwythau newydd ddyweddio dros yr Ŵyl.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Eurgain, Gwynionydd, Tal-y-bont yn ei swydd newydd gyda'r gwasanaeth sifil yn Aberystwyth a phob hwyl iddi yn ei chartref newydd yn y dref.

Priodas ddeiamwnt

Pob dymuniad da i Monica a Dave Potts, Taliesin, ar ddathlu eu penblwydd priodas ddeimwnt ar 7 Ionawr. Bydd Dave hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ar 12 Ionawr.

YES CYMRU

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf at fwriad Yes Cymru i gynnal sesiwn baneri bore Sadwrn 9 Ionawr ym Bow Street. Derbyniwyd neges gan Yes Cymru, y bydd yn rhaid gohirio'r digwyddiad oherwydd y sefyllfa Cofid.

Pobl a Phethe



Yn y gadair ddu

Un o'r rhaglenni a ddarlledwyd ar S4C ym mis Rhagfyr oedd y rhaglen 'Mastermind Cymru', ble mae pedwar oedolyn yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cwis sydd mewn dwy ran. Rhoddir cyfle i bob cystadleuydd ddewis pwnc arbenigol yn y rownd gyntaf i gael ei holi arno ac yna yn yr ail rownd seilir y cwestiynau ar wybodaeth cyffredinol. Un a gafodd ei ddewis i gystadlu ar y rhaglen oedd Tom Cosson, Dôl Pistyll, Tal-y-bont gyda Chlwb Pêl-droed Norwich City fel ei bwnc dewisol. Roedd Tom yn ymddangos yn ddigon hamddennol yn y gadair ddu wrth ateb y cwestiynau, a hynny yn ei ail iaith! Er nad enillodd y gystadleuaeth, gall fod yn falch iawn o'i sgôr parchus! Llongyfarchiadau i ti Tom.

Ar y Radio

Tad a merch o Dal-y-bont oedd dewis Dewi Llwyd i'w holi ar ei raglen wythnosol amser cinio yn ddiweddar - sef Alun ac Elan Elidy. Difyr iawn oedd gwrandao ar y ddwy genhedlaeth yn ateb ei gwestiynau, gydag Elan yn disgrifio ei hyfforddiant a'i gyrfa fel dawnswraig a sut y mae wedi ymdopi yn ystod y flwyddyn drwy berfformio'n rhithiol ar lein ac Alun yn trafod y newidiadau heriol sydd yn wynebu'r byd amaeth ac wrth ffilmio'r rhaglen 'Ffermio'.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Myra Pryce, Cartrefle, Tal-y-bont ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, David Kinninmonth, Ger-y-lan, Penrhyn-coch.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Jon Bell, Noddfa, Taliesin ar golli ei fam Dorothy Bell, gynt o Landre, oedd newydd ymgartrefu yng Nghartref Tregddan.

Estynwn ein cydymdeimlad hefyd â Denise Morgan, Gill West a Paul Jenkins, Tal-y-bont, ar farwolaeth eu hewythr Delwyn Jenkins yn ysbyty Bronglais.



Cerian yn dangos y thus i gwsmer bodlon Rhiannon Evans, Eglwys-fach

Fferyllfa Orau Cymru 2020

Ydy mae'n swyddogol! Fferyllfa orau Cymru yn 2020 yw Fferyllfa Tal-y-bont. Dyfarnwyd y wobwr, sef tarian wydr, i'r Fferylllydd Cerian Screen am ei gwasanaeth ardderchog i'r gymuned. Ers dwy flynedd mae Cerian wedi bod yn teithio o Gilcennin i weithio yn Nhal-y-bont. Yn ystod y flwyddyn mae wedi helpu nifer fawr o bobl i stopio 'smygu ac i golli pwysau ac mae hi hefyd yn rhoi cyngor ar sut i reoli clefyd siwgrwr. Gwasanaeth gwerthfawr arall mae'n ei roi yw'r pigiad ffliw heb i chi orfod gwneud apwyntiad o flaen llaw. Gall gynnig triniaethau a chynghor ar wahanol fathau o fân anafiadau ac anhwylderau sydd yn arbed taith i'r claf i Uned Ddamweiniau Ysbyty Bronglais. Mewn cyfnod pryd y cynghorir pawb i osgoi teithio ac i aros yn lleol, yn wir mae'r gwasanaethau oll a gynnigir i'r gymuned ganddi yn hynod o werthfawr.


Ysgol Tal-y-bont



Stori'r geni yn dod yn fyw i'r disgyblion



Siwmperi Nadolig lliwgar



Llythyr Marcus Rashford



Y doethion a'u hanrhegion

Ysgol Tal-y-bont

Sêr Pop y Dyfodol?

Ar ddiwedd mis Tachwedd, fe ryddhaodd y cerddor enwog Mr Phormula record ddigidol newydd o'r enw "Tiwns". Mae'r albym wedi cael llawer o sylw yn y wasg ac os wnewch chi wrando'n ofalus, efallai y clywch chi blant Blwyddyn 1 a 2 yn cyfrannu ar y gân Tiwns! Diolch yn fawr i Mrs Griffiths am drefnu. Cawsom weithdy gwyh gyda Mr Phormula yn yr ysgol rai blynyddoedd nôl bellach ac mi fyddai'n braf iawn gallu ei groesawu atom eto cyn bo hir. #parch

Marcus Rashford

Ychydig iawn o bobl fyddai wedi gallu rhagweld y byddai enw Marcus Rashford wedi dod mor adnabyddus y tu hwnt i'r caeau pêl-droed yn ystod 2020. Ond oherwydd ei ymgyrchu effeithiol i godi ymwybyddiaeth o dlodi plant yng ngwledydd Prydain fe ddaeth yn arwr i lawer iawn o bobl, gan gynnwys plant Ysgol Tal-y-bont. Cymaint oedd yr argraff a wnaeth arnynt, fel i'r plant hyn ysgrifennu llythyron ato i ddiolch iddo am ei waith da. Cyn diwedd y tymor, daeth ymateb ganddo, ac fel y byddech yn disgwyl, roedd y plant wrth eu boddau o dderbyn ei lythyr.

Nadolig

Rhwng pob dim, cafwyd cyfnod tipyn gwahanol dros y Nadolig eleni. Yn anffodus, ni fu modd cynnal y perfformiadau cyhoeddus arferol, ond fe barhaodd yr ysgol i fod yn lle hynod brysur. Aeth pob dosbarth ati'n frwdfrydig gynhyrchion gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i greu ffilmiau ac animeiddiadau difyr a diddorol. Da iawn chi – plant a staff am eich dyfeisgarwch

Ond er y bu'n rhaid newis rhai pethau eleni, diolch byth fod rhai pethau'n aros yr un peth. Yn sicr, roedd cinio Nadolig blasus Mrs Jones a Natalie wedi plesio pawb unwaith eto – 100%. Diolch o galon i chi am sicrhau boliau llawn, nid yn unig ar gyfer y cinio Nadolig ond ar hyd y flwyddyn!

Mae hi'n draddodiad bellach i roi'r cyfle i bawb wisgo eu siwmperi Nadolig yn y cyfnod yma. Roedd hi'n hyfryd i weld yr amrywiaeth gyda nifer o'r siwmperi'n goleuo ac y fflachio! Roedd hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o waith elusen Achub y Plant ac yn gyfle da i atgoffa'r plant am amgylchiadau plant eraill ar draws y byd.

Manon Steffan Ros

Am syrpreis hyfryd gafodd y plant ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Trefnwyd bod Manon Steffan Ros yn darllen ei chyfrol Pobol Drws Nesaf i ni ar fideo. Mae'r neges am garedigrwydd yn amserol iawn, ac yn ein hannog i beidio â beirniadu rhywun sy'n edrych yn wahanol i ni, a bod yn rhaid parchu pawb. Gyda lluniau deniadol yr artist Jac Jones, does dim rhyfedd fod y gyfrol yma wedi ennill gwobr Tir na n-Og Nog yn 2020. Diolch i Mrs Griffiths am drefnu.

Raffl Fawr y Nadolig

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd y raffl Nadolig ar-lein eleni. Hoffwn i ddiolch yn fawr i bawb am gyfrannu ac i aelodau'r GRhA am drefnu. Diolch o galon i'r noddwyr am gefnogi'r ysgol – pob un yn fusnes lleol ac yn dewis cefnogi'r ysgol.

Dyma restr o'r enillwyr:

Erin Medi Jones - Hamper arbennig Cletwr gan CRhA/PTA Ysgol Talybont

Elgan Evans – Taleb £10 gan Cletwr

Rhian Nelves – Calendr gan Ruth Jên

Dominic Jenkins – Cyw iâr gan Dofednod Cwmtynant

Mari Hefin – Siocledi gan Davmor Garage

Margaret Mason – Potel o win a siocledi gan Siop Tal-y-bont

Ted Trewella - Potel o win a siocledi gan Siop Tal-y-bont

Paul & Maggie Pownall – gwobr gan Atebol

Stewart Miller – gwobr gan Y Lolfa

Blwyddyn newydd dda i chi gyd

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth un o aelodau ffyddlonaf y gangen sef Mrs Kathleen Richards. Bu'n aelod o'r cychwyn a bu'n Drysorydd nifer lawer o weithiau. Yn ddi-ffael bob blwyddyn hi fyddai yng ngofal raffl stonin Merched y Wawr yn ffair Nadolig y Neuadd Goffa. Wrth ddathlu penblwydd y gangen yn 40 oed at Kathleen yr aethpwyd gyntaf i'w holi am ddigwyddiadau'r gorffennol gan fod yr wybodaeth a'r hanesion ar flaen i'w bysedd! Gwelwyd ei heisiau pan y methodd â dod i'n cyfarfodydd oherwydd ei hiechyd. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan.

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



Tel: 01654 703592

Heol Y Ddŵl, Machynlleth, SY20 8BQ

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

HUW LEWIS

Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gws £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Teyrnged

Kathleen Mary Richards

(Kit y Post) 1927-2020

Trist iawn yw gorfod cydnabod ein bod wedi colli un o blant hynaf Tal-y-bont, yn 93 mlwydd oed, pan gollom ni Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont ('Kit y Post' neu Anti Kit i lawer), ddydd Mawrth, 8 Rhagfyr. Roedd Kit yn wraig arbennig iawn, yn rhan enfawr o'r pentref. Nid aeth oddi yma erioed i wasanaethu ond gwasanaethodd ei chymdeithas yn drwyadl hyd ei gallu.

Ganed ar 6 Medi 1927, yn ail blentyn o bedwar (Defi, Kit, Wynne ac Ann) i Evy a Janet Davies, Central Stores, Tal-y-bont. Gan fod y teulu yn byw ym Mrynhyfryd tra ail-adeiladwyd y siop yn 1935, treuliodd lawer o'i hamser yn chwarae gyda'i ffrindiau ar lan yr afon Ceulan, yn y darn a elwid 'y transh' ble roedd y dŵr yn cael ei arallgyfeirio at y ffatri. Roedd ganddi nifer o hanesion am y cyfnod hapus hwn o'i phlentyndod a'i dymuniad oedd gwasgaru ei llwch yn y lleoliad arbennig hwn.

Priododd Kit â'r diweddar John Richards (1924-1975), Fedwfaen, Aberhosan, yn 1955; gŵr hyfryd a llawen. Roedd y ddau'n cydweithio yn Siop Central Stores ynghyd â'i rhieni a'r ddau'n hapus i wneud cymwynas ag unrhyw un.

Cafodd ei haddysg yn ysgol Tal-y-bont ac yna yn y Confent yn Aberystwyth. Yr oedd yn ddisgybl hynod o alluog yn yr ysgol, ond bu'n rhaid iddi adael yr ysgol yn un-ar-bymtheg oed i helpu gartref efo'r busnes teuluol ac, yn benodol, yn y Swyddfa'r Post. Y rheswm iddi fynd i'r Convent yn lle Ardwyn oedd oherwydd iddi gael sawl llawdriniaeth ar ei llygaid ers ei phlentyndod a barnwyd y byddai'n llai o straen arni i gael ei haddysg yn y Convent. Bu'n rhedeg y Swyddfa Bost o 1943 nes ei hymddeoliad ym 1990 ac roedd yn fawr ei pharch gan bawb. Yn aml iawn roedd y postmyn yn galw yn y Bryn gyda phentwr o lythyron i ofyn iddi ble roedd y gwahanol gyfeiriadau yn y pentref. Roedd hi hefyd yn gallu helpu gydag enwau pawb oedd yn byw yno! Pan fyddai teulu yn symud i Dal-y-bont, hi fyddai'r cyntaf i'w croesawu, ac yn eu helpu i ymgartrefu yma. Does dim rhyfedd ei bod mor uchel ei pharch yn y gymuned. Bydd yn anodd iawn cael unrhyw un i lanw ei lle yn y pentref.

Roedd yn cofio hanes ac achau ei theulu dros sawl cenhedlaeth a hanes hen deuluoedd eraill y pentref hefyd, yn ogystal â chofio hen gymeriadau'r pentref. Am flynyddoedd hi oedd gohebydd swyddogol ac answyddogol Papur Pawb y pentref. Roedd ganddi pob rhifyn Papur Pawb wedi eu pentyrru bron lan at y to ac fe ddwedodd swyddogion y frigâd dân wrthi hi ychydig flynyddoedd yn ôl, wrth wneud arolwg o'r larymau tân yn y Bryn, ni fyddai yn cael eu cadw nhw fel yna oherwydd rheoliadau diogelwch! Roedd yn ystyried ei bod cymaint o faint i gael cyfrannu at y llyfr 'Ein Canrif' a gyhoeddwyd gan Y Lolfa yn 2002. Yn naturiol ddigon, ei chyfraniad mwyaf oedd ysgrifennu'r bennod am siopau'r pentref!

Gwaethygodd ei golwg yn arw wrth iddi heneiddio ac roedd hi'n gwrandao ar y radio ddydd a nos, yn berchen o leiaf chwe radio a dwy radio boced, un ar Radio Cymru a'r llall ar Radio Wales.

Roedd hi'n dal i fynychu Capel Bethel hyd yn ddiweddar ac yn cefnogi pob achlysur diwylliannol posib yn y gymuned erioed. Roedd yn aelod o Ferched y Wawr o'r dechrau, Pwyllgor Sioe Tal-y-bont, Pwyllgor y Neuadd Goffa, Chwiorydd Rehoboth, Treftadaeth Llandre, Ffrindiau Amgueddfa Ceredigion a Chymdeithas Bob Owen. Roedd hi wrth ei bodd yn mynychu gyrfaeod chwist a gwnaeth llawer o ffrindiau ffyddlon yno. Ym 1998 cafodd ei hanrhydeddu yn Llywydd Sioe Tal-y-bont. Roedd hi'n ddewis naturiol gan ei bod yn mynychu'r cyfarfodydd a phob sioe ers ei genedigaeath ac yn barod iawn i helpu bob amser gyda'r trefniadau. Cafodd ddiwrnod i'w gofio.

Yn 2017 dathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed gyda pharti mawr yn y Neuadd Goffa gydag oddeutu 100 o ffrindiau a theulu yn



bresennol. Roedd wrth ei bodd, wedi gwahodd y bobl oedd mor bwysig iddi hi a phan oedd yn wynebu'r ail lawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar, roedd yn ein hatgoffa cymaint oedd pobl Tal-y-bont yn golygu iddi. "Ffrindiau pob un", meddai, "nid cwsmeriaid oedden nhw".

Ym mis Gorffennaf 2018 daeth Jonathan (ei hŵyr) i'r Bryn i fyw gan ei fod yn dechrau swydd fel Darlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth ac roedd hi wrth ei bodd yn ei gwmni. Yna, ar ôl i Kit dorri ei garddwn y Nadolig hwnnw, daeth Janet o Gaerdydd i ofalu amdani yn llawn amser. Yn anffodus, torrodd ei ail glun ddiweddd Awst 2020 a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty ac yna i Blas Cwmcynfelyn. Roedd wedi ei chofrestru yn ddall erbyn hyn, dim ond yn gallu gweld siapau ac roedd y misoedd diwethaf yn amser rhwystredig a thrist iawn iddi hi a'i theulu gan nad oedd yn bosib iddyn nhw na'i ffrindiau ymweld â hi oherwydd cyfyngiadau Cofid-19.

Cafwyd gwasanaeth angladdol teilwng yng ngofal ei gweinidog, Y Parchedig Gwilym Tudur, yng Nghapel Bethel ddydd Gwener 18 Rhagfyr. Rhoddwyd teyrnged haeddiannol i 'Anti Kit' gan Mair Nutting ar ran y teulu a darlleniad hyfryd gan Gwen Davies sef 'Gweddi Eli Jenkins' o Dan y Wenallt gan Dylan Thomas, addasiad T. James Jones. Oherwydd y cyfyngiadau, 30 o deulu a ffrindiau agos oedd yn gallu bod yn bresennol. Roedd yna ychydig o eironi ar y diwrnod gan i fan y post dynnu fewn gyferbyn â'r capel yn union yr un pryd â'i hymadawiad o'r capel!

JF

Neges o ddiolch: Kathleen (Kit y Post)

Dymunaf teulu ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Yn ôl dymuniad Kit, yn hytrach na chyfraniadau, bydd y teulu yn cyfrannu, er cof amdani, at elusennau a mudiadau lleol oedd yn agos at ei chalon, megis Llyfrau Llafar, Papur Sain Ceredigion, Capel Bethel, Sioe Tal-y-bont a'r Neuadd Goffa.

Hoffai Janet a Jonathan hefyd ddatgan eu diolchgarwch i bawb am y cardiau, anrhegion, llythyron a negeseuon caredig i Kathleen tra'i bod yn Ysbyty Bronglais ac ym Mhlas Cwmcynfelyn yn ddiweddar ac am eich cyfeillgarwch a phob cymwynas ar hyd y blynyddoedd. Diolch i chi gyd.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Tallesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dan Do

Y tro hwn, yn y gyfres ar adeiladau hen a newydd yr ardal, cawn hanes hen hen dŷ sydd bellach yn adfail. Mae *Papur Pawb* yn ddiolchgar i Cledwyn Fychan, un a fu'n byw yn yr ardal hon flynyddoedd yn ôl, am anfon yr erthygl i ni.

Dôl-y-sant

Lluest neu dŷ bugail ar y mynydd heb fod ymhell o Blas-y-mynydd oedd Dôl-y-sant. Er bod yr adfail i'w weld yno o hyd (SN 7536 9084) ar lan bella afon Llechwedd-mor, aeth yr enw yn angof ers cenedlaethau.

Diolch i achos fu o flaen Llys Sesiwn Fawr Sir Drefaldwyn yn 1604, mae ychydig bach o hanes yr hen luest wedi'i ddiogelu.

Arfer yr oes honno oedd i ffermwyr llawr gwlad symud gyda'u hanifeiliaid i fyw ar y mynydd yn ystod misoedd yr haf. Rhisiart ap Siôn ap Rhydderch, bonheddw'r o blwyf Llanfihangel Genau'r-glyn, oedd deiliad Dôl-y-sant ar y pryd, ond i arbed symud yno'i hunan byddai'n cyflogi gwas a morwyn i fyw yno gan fugeilio, godro a gwneud menyn a chaws ar gyfer y gaeaf. Morgan Tomas oedd y gwas dan sylw, llanc o Isygarreg, Machynlleth, a fu'n bugeilio yn Nôl-y-sant ers tair blynedd erbyn 1604. Y si oedd bod ei feistr am iddo briodi Marged Lewys, y forwyn, a hynny yn erbyn ei ewyllys. Gan fod y ddau'n byw, neu'n cyd-fyw, â'i gilydd dan yr unto, efallai mai cyfreithloni sefyllfa a oedd yn bodoli eisoes oedd bwriad Rhisiart ap Siôn ap Rhydderch.

Rhywbryd yn ystod mis Awst 1604 colodd Morgan Lewys, yntau o Isygarreg, ddau eidion ac wedi dilyn ôl eu traed barnwyd iddynt gael eu cymryd dros y mynydd i Geredigion. Pan glywodd Morgan Tomas mai ef gâi ei amau o'u lladrata, diflannodd o'r ardal ac ailgyflogi gyda pherthynas iddo yn Llangamarch. Yno newidiodd ei enw i Owain Tomas a mynnai iddo ymadael â Dôl-y-sant ar ôl iddo feichiogi merch ei feistr, ond doedd hynny ddim yn wir mae'n debyg.

Er na chofnodwyd dyfarniad y Llys, mae'n bur debyg mai Morgan Tomas oedd lleidr y ddau eidion. Câi ei alw'n ŵr 'of ill name and fame'

a honnir iddo gyfaddef a chynnig talu am y ddau eidion pe bai eu perchennog yn gollwng yr achos yn ei erbyn.

Bu farw Rhisiart ap Siôn ap Rhydderch yn 1611 ond nid yw'n sôn gair am Ddôl-y-sant yn ei ewyllys er ei fod yn enwi'i fugail gwartheg (herdsman) Rhys Dafydd Pris, olynnydd Morgan Tomas yn


Nôl-y-sant efallai. Mab hynaf ac etifedd Rhisiart oedd Harri Fychan, ond does dim sôn am Ddôl-y-sant yn ei ewyllys yntau ychwaith.

Mewn dwy weithred tir yn 1673 ac 1679, enw'r lle oedd *Lluest Newydd alias Dol-y-saint* a therfynau'r tir oedd afon Llechwedd-mor hyd at dŷ Lluestygrafia ac oddi yno tua'r dwyrain at garreg fawr wrth odre Moel Cerrig Gwynion (ysgwn i a yw'r garreg fawr yn dal yno); troi tua'r De oddi yno ac ymlaen drwy Nant y March a thros Esgair Gorddu at Nant y Ci gan ddilyn honno i lawr i afon Llechwedd-mor. Dyna enwau sy'n adnabyddus heddiw ond bod Nant y March wedi'i chamleoli yn llwyr ar y mapiau OS.

Erbyn 1763 daethai'r lle i feddiant Stad Wynstae a'r enw wedi'i newid eto fyth i Lluest Fawr a'r tŷ yn adfail. Yr adfail hwnnw yw'r nodwedd fwyaf diddorol ynghylch y lle gan ei fod gymaint helaethach nac adfeilion lluestau eraill cyfagos. Tybed a gafodd ei godi at rhyw ddibenion eraill yn wreiddiol? Eiddo Abaty Ystrad Marchell oedd y mynydd-dir o'i gwmpas yn ystod yr Oesau Canol.

Byddai'n ddiddorol cael gwybod a glywodd un o ddarllenwyr *Papur Pawb* rhyw hanesyn am y lle.

Cledwyn Fychan



Eisteddfod y Nadolig

Tra ein bod ni gyd, Covid ai peidio, wedi hen arfer â gloddesta ac ymlacio wrth y tân ar ddydd Nadolig, gan mlynedd yn ôl roedd yna hen draddodiad yn Nhal-y-bont o gynnal eisteddfod ar ddydd Nadolig. Ac ar Ŵyl San Steffan cynhaliwyd un arall yng nghapel Soar Tre'r ddôl!

Ceir adroddiadau yn y papurau newydd yn disgrifio'r eisteddfodau bywiog hyn.

Yn 1907, er enghraifft, "...darparwyd te yn ysgoldy y Cynghor, prydawn dydd Nadolig, pryd yr eisteddodd nifer luosog i fwynhau gwledd o'r fath oreu. Gosodwyd y byrddau yn ddestlus gan amryw o foneddigesau." Yna byddent yn cerdded i Gapel Bethel lle y cynhaliwyd yr eisteddfod.

Ar wahân i'r canu ac adrodd arferol, roedd cystadlaethau amrywiol eraill fel gwau sanau seiclo; llunio coes ar gyfer pladur; gwneud 'calico patch'; a llunio ffon o goed helygen.

Yn flaenllaw ymhlith y cystadleuwyr yn y cyfnod hwn oedd Phyllis Edwards (Williams wedi hynny), a'i brawd D J Edwards (Defi John y Glo), Ruffina Owen, Dorothy Owen, Caradog James, a Lilian Edwards – enwau cyfarwydd iawn i lawer ohonoch.

Rhai blynyddoedd yn ôl, cyflwynodd Defi John y Glo sypyn o raglenni eisteddfod Tal-y-bont ac

ambell i eitem arall i mi. Yn eu plith mae rhaglen eisteddfod 1919 a hefyd rhaglen un o'r eisteddfodau olaf efallai i'w chynnal ar ddydd Nadolig, sef un 1937.

Erbyn y flwyddyn honno, cynhaliwyd yr eisteddfod yn y Neuadd Goffa a hynny ar nos Nadolig, gan ddechrau am 5.30. Yr arweinydd oedd y Parch. Fred Jones a'r cyfeilyddion oedd y Misses Ruffina Owen a Phyllis Edwards.

Erbyn hynny, cystadlaethau eisteddfodol arferol a gafwyd: adrodd, canu, llunio limrig a thraethodau. Doedd dim cystadlaethau i oedolion dros 21 mlwydd oed er mae'n debyg y gallai rhai hŷn gystadlu ar lunio limrig a chyfansoddi englyn ar y testun 'Bom'.

Roedd y buddugwyr yn ennill hanner coron (12½ ceiniog yn arian heddiw) ond doedd dim cwpanau a dim cadeirio.

Mae'n siŵr fod 'na adroddiad ar eisteddfod 1937 yn y papurau newydd lleol ond, gan fod y Llyfrgell Genedlaethol ar gau, nid oes modd i mi ddarganfod mwy amdanynt ond efallai fod ambell hynafgwr neu hynafwraig yn cofio'r eisteddfodau Nadolig hynny. Byddai'n braf derbyn eu hatgofion.

BETHEL. TALYBONT.

RHESTR TESTUNAU

Eisteddfod Flynyddol

A GYNHELIR YN Y

NEUADD GOFFA, TALYBONT,

NOS NADOLIG, 1937.

Cadeirydd - - - - Dr. TOM JONES, Borth.
Arweinydd - - Y Parch. FRED JONES, B.A., B.D.

BEIRNIAID :

Cerddoriaeth—J. JAMES, Ysw., Llanbadarn.
Amrywiaeth a Lién—Y Parch. T. MATTHEWS, Derwenlas.
Traethodau'r Plant—ALFRED HUGHES, Ysw., Talybont.

CYFEILYDDION :

Misses RUFFINA OWEN a PHYLLIS EDWARDS.

DRYSAU YN AGOR AM 5 O'R GLOCH.
I DDECHREU AM 5.30 O'R GLOCH.

Pris y Tocynnau, 1/6 a 1/- Plant dan 14, Hanner Pris.

Raglenni, 2g. yr un, i'w cael gan yr Ysgrifennydd,—
D. J. DAVIES, 3, Chapel Street, Talybont.

Trysorydd : Mr. RICHARD EVANS, Rhydych, Talybont.

Teyrnged

David Owen Bond

Ffrind i'r holl fyf oedd

David Bond.

Pan ddeuai Dai ar y bws byddai yna gorws o gyfarchion o bob cyfeiriad achos roedd pawb yn nabod Dai a Dai'n nabod pawb a phawb yn ei hoffi.

Dyn ffeind, diddorol, cymwynasgar a doniol oedd Dai. Dyn a hoffai bobl oedd o. Dai fyddai ymhlith y cynta i wybod pwy oedd wedi symud i'r pentre, neu'n gadael neu'n symud tŷ – nid oherwydd rhyw hen fusnes fel 'na ond oherwydd ei fod yn siarad â phawb, yn gofyn cwestiynau ac yn gwrando ar yr atebion gan ddangos diddordeb ym mhob un o ble bynnag y deuent.

Roedd Dai wedi ymgymryd â sawl math o waith yn ei fywyd; bu yn y llynges; bu'n gwerthu donyts ar draethau de Ffrainc yn ogystal â gwneud gwaith adeiladu. Roedd ganddo stoc o straeon difyr a dawn dweud wrth eu hadrodd. Un da oedd o hefyd am gofio penillion lleol – yn enwedig y rhai a gyfansoddwyd gan ei dad, John.

Yn fyfyrwr aeddfed astudiodd am radd mewn hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth a'i hennill gydag anrhydedd.

"Be wyt ti'n darllen y dyddiau 'ma, Mr Bond?" fyddai fy nghwestiwn iddo'n aml wrth daro ar ei draws yn y pentre. A phob amser byddai'n sôn am ryw gyfrol werth chweil am hanes, hanes Cymru, economeg neu wleidyddiaeth. Roedd yn foi hynod wybodus a byddai trafod y pynciau hyn efo fo'n brofiad difyr iawn.

Ond nid pethau academiaidd trymion yn unig oedd yn mynd â bryd Dai. Bu'n gefnogwr brwd i Papur Pawb ac am nifer o flynyddoedd ef oedd gohebydd chwaraeon y papur.

Doedd Dai ddim bob amser yn cael bywyd yn hawdd ond serch hynny, yr hyn mae rhywun yn ei gofio'n bennaf yw'r llond bol o chwerthin, y sgysiau siriol a'r tynnu coes.

Yn ddiweddar bu'n rhaid iddo wynebu llawdriniaeth hegr ac addasu wedyn i effeithiau'r llawdriniaeth honno ond llwyddodd i ymdopi â'i sefyllfa'n arbennig ac roedd pawb yn ei edmygu am ei ddewrder a'i ddyfalbarhad.

Ar yr adeg yma, rhaid sôn am ei fam, Avril, dynes sydd wedi dygymod â mwy na'i siâr o drallod yn y byd hwn ond sy'n dal ei thir yn rhyfeddol o urddasol er gwaethaf popeth. Mae Avril wedi gweld claddu ei dau blentyn, Mabel a David, a does dim llawer o ergydion sy'n fwy creulon na hynny i fam.

Dyma'r ddynes a ddyfarnwyd yn 'halen y ddaear' ar S4C er stalwm. Yn sicr yn y ffordd a wasanaethodd Dai ei gymdogion dros y blynyddoedd ac a fu'n gymorth mor driw a gwerthfawr i'w fam, mae yntau hefyd yn ddi-os yn haeddu'r un clod.

Halen y ddaear oedd Dai ac yn sicr, fydd Taliesin byth yr un fath hebddo.



Bethel

Llwyddwyd i gynnal dwy oedfa yn ystod mis Rhagfyr o dan amodau cyfyngiadau Covid-19 gyda Gwilym Tudur yn gwasanaethu ar y 13eg o Ragfyr a Geraint Evans yn arwain yr oedfa ar fore dydd Nadolig. Oherwydd y cyfyngiadau newydd, penderfynwyd peidio â chynnal gwasanaethau ym Methel am y tro gan adolygu'r sefyllfa ym mis Chwefror. Serch hynny, o ganlyniad i'r cyd-weithrediad gyda Seion, Aberystwyth, darlledir oedfaon y Sul ar Zoom sy'n golygu fod modd i bawb dderbyn bendith y gwasanaethau heb orfod mentro allan.

Perfformio'n Rhithiol

Teg dweud i'r maes celfyddydol gael ei daro'n wael gyda dyfodiad Cofid – cyngherddau a pherfformiadau'n cael eu gohirio a theatrau a neuaddau'n gorfod cau. Serch hyn llwyddodd sawl perfformiwr o Dal-y-bont i oresgyn nifer o anhawsterau yn deillio o hyn.

Bu Elan Elidyr yn rhan o sioe Nadolig, 'Gwrach yr Ia', prosiect ar y cyd rhwng Pontio a Theatr Clwyd ac a gafodd ei dangos ar lein i ysgolion.

Fel aelod o Gwmni Theatr 'Taking Flight' roedd Ioan Gwyn yn rhan o gynhyrchiad 'First Three Drops' - addasiad o stori Taliesin, yn ystod y tri mis diwethaf. Bu'r cynhyrchiad mor llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr fel bod rhagor o berfformiadau i'w gweld ar lein ym mis Chwefror.

Soniwyd eisies am lwyddiant Sam Ebenezer yn serennu ym myd y pantos Nadolig ac eleni ef oedd yn chwarae'r brif ran yn 'Jack and the Beanstalk'.

Pob dymuniad da i chi i gyd yn 2021.



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

MD

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Ffenestri Adfent Lliwgar

Dyma rai o'r ffenestri oedd yn rhan o gynllun llwyddiannus Calendr Adfent pentref Tal-y-bont a gododd galon y gymuned. Diolch i'r trefnwyr ac i bob un a addurnodd ffenestr.



Ymweliad Sion Corn

Cafodd Sion Corn groeso mawr wrth iddo ymweld â'r fro ychydig cyn y Nadolig.

Cylch Meithrin Talybont



Dros yr wythnosau diwethaf rydym yn ddiolchgar iawn i wahanol bobl a busnesau lleol sydd wedi bod yn codi arian i'r Cylch. Hoffwn ddiolch i #CerrigTalybontRocks, Upcycled Blacksmith ac yn arbennig i Rachel Solnick, sef rhiant a gododd bron i £2000. O ganlyniad i hyn rydym wedi cael cwt pren newydd i'r plant cael chwarae ynddo yn ogystal a thô pwrpasol sydd yn dod oddi ar y caban i wneud gweithgareddau yn yr awyr agored.

Yn ddiweddar hefyd rydym wedi croesawu dwy aelod o staff newydd i'r Cylch Meithrin sef Miss Kara a Miss Kate. Rydym yn gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein mysg.

Bu'r Cylch Meithrin yn brysus iawn drwy gydol mis Rhagfyr yn cwblhau gweithgareddau Nadoligaidd. Fe ddaeth corrach bach i fyw yno am fis o'r enw Elvin ac roedd yn chwarae triciau ar y plant bob dydd. Fe lwyddodd y plant hefyd i'n diddanu gyda sioe Nadolig fer rithiol ar y we. Roeddent wedi mwynhau gwisgo i fyny a chanu'r caneuon Nadolig.

Cyn diwedd y tymor fe aethom am dro o amgylch y pentref i weld addurniadau yn ffenestri'r tai. Cafodd pawb amser da. Roeddent yn ffarwelio â 4 plentyn cyn y Nadolig hefyd sef Delilah, Lola, Jonah a Katri ac rydym yn dymuno pob lwc iddyn nhw yn yr Ysgol fawr. *SE*

Papurau Bro Cymru

Mae cynrychiolwyr papurau bro Cymru gyfan yn cwrdd unwaith y flwyddyn i drafod materion ariannol a dulliau cydweithio dan ofal y Mentrau Iaith. Oherwydd y cyfyngiadau eleni, cynhaliwyd y cyfarfod ar ZOOM ar 17 Rhagfyr. Y gŵr gwadd oedd y darlledwr Huw Edwards a fu'n sôn am ei brofiadau fel newyddiadurwr ifanc. Pwysleisiodd y diddordeb parhaol mewn newyddion a materion lleol a phwysigrwyd y papurau bro yn y maes hwn.

Yn y cyfarfod hefyd, adroddwyd bod gwefan y papurau bro am gael ei lansio ar 1 Mawrth 2021. Bydd manylion holl papurau bro Cymru – dros hanner cant ohonynt – yn ymddangos arni. Bydd gan y wefan hefyd fewnwyd ddefnyddiol lle y gall y papurau bro rannu syniadau a chynnwys.

Rhwydwaith y Gymuned Ffermio, FCN Cymru

Mae Rhwydwaith y Gymuned Ffermio neu FCN Cymru yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr a'i teuluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl. Bellach mae tîm o weithwyr achos profiadol Cymraeg ar gael i gynorthwyo ffermwyr a'i teuluoedd yn yr amseroedd anodd ac ansicr yma. Bydd y gweithwyr yma yn cynnig cymorth a chyd-gerdded gydag unrhyw un sydd yn chwilio am gymorth a cefnogaeth. Ond tydi hyn yn da i ddim onibai fod pobol yn gwybod am y mudiad a sut y gall fod o gymorth iddyn nhw neu eu cydnabod.

Mae swyddog newydd wedi ei benodi fel Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith Gymuned Ffermio. Magwyd William Shillock yn Y Ffor ger Pwllheli ac ar ôl treulio amser yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth yn astudio Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad bu'n gweithio ar Fferm laeth, cwmni codi adeiladau amaethyddol a diwydiannol yn ogystal a gweithio fel swyddog cyswllt ffermydd yr Ymddiredolaeth Genedlaethol. Mae William wedi ymgartrefu yn Llithfaen gyda'i bartner Angharad a'r meibion Seth a Albi. Dywedodd ei fod yn "llawn sylweddoli'r angen am gefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd gan y bydd sail yr economi amaethyddol yn newid yn y blynyddoedd nesaf" ychwanegodd ei fod yn "edrych ymlaen i hyrwyddo yr elusen fel bod pawb yn gallu manteisio arni."

Y cyfan sydd angen wneud ydi ffonio 03000111999 unrhyw dro rhwng 7yb ac 11yh ac fe gewch wasanaeth cyfangwbl gyfrinachol a personol. Galwch hefyd ymweld a fcn.org.uk/?lang=cy neu www.farmwell.cymru am fwy o wybodaeth.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Cwis Cyflym I Blant Ysgol Gynradd Gwobr £10

Mae'r atebion i'w gweld yn y rhifyn yma o Papur Pawb, gyda rhif y cwestiwn yn cyfateb i rif y dudalen.

1. Sawl bugail oedd gyda'u praid?
2. Beth yw dyddiad y cyfrifiad?
3. Pwy oedd yn y gadair ddu?
4. Pa berson enwog anfonodd lythyr i blant Ysgol Tal-y-bont?
5. Pa lyfr ddarllenodd Manon Steffan Ros?
6. Pwy sy'n trin gwallt?
7. Beth yw enw'r hen, hen dŷ?
8. Ble mae Iwan Jones yn byw?
9. Pa anifeiliaid sydd yn ffenestr rhif 24?
10. Faint o arian a gododd Rachel Solnick i'r Cylch Meithrin?
11. Beth oedd gwobr raffl Nadolig Cletwr?
12. Beth oedd sgôr Julian Thomas?

Anfonwch eich atebion i golygydd@papurpawb.com neu i Maesgwyn, Tal-y-bont, SY24 5DY.

Bydd yr enw cyntaf a dynnir allan o het gyda'r atebion cywir, yn derbyn gwobr o £10. Pob lwc!

Cletwr

Blwyddyn Newydd dda, a gobeithio y bydd yn flwyddyn llawer gwell i bob un ohonom ni. Fel oedden ni'n ddisgwyl, roedd mis Rhagfyr yn ddiweddod i flwyddyn ryfedd iawn. Gyda'r rheolau am bwy all cwrdd gyda phwy, a ble, yn newid reit ar y funud olaf, bu raid i bobl newid eu cynlluniau am y 'Dolig bron yn ddyddiol. Ond roedd Cletwr yma i helpu! - Mwy o bobl nag erioed yn penderfynu archebu llysiau a chig, ac roedd y staff yn brysur yn pacio'r mynydd o foron, pannas, blodfresych ac, wrth gwrs, ysgewyll (dydy 'Dolig ddim yn 'Ddolg go iawn heb ysgewyll) yn barod i bobl ddod i'w casglu ar Noswyl Nadolig.

Serch hynny, roedd y siop ar ym 10 Ionawr yn dawl iawn. Roedd Siôn Corn yn hunan-ynysu ym Mhegwn y Gogledd. Roedd y caffi ar ym 10 Ionawr (ar wahân i tecawês). Fe ddaeth llawer o bobl i mewn ond, yn hytrach nag aros yn clebran gyda'u ffrindiau a chymdogion, ac yfed gwin poeth a mins-peis, wnaethon nhw adael ar unwaith (dim ond 3 yn y siop ar y tro!). Trist iawn. Croesi'n bysedd bydd 2021 llawer yn well wedi i ni oll gael ein brechiad.

Felly does dim llawer i'w adrodd y mis 'ma. A does dim llawer o gynlluniau ar gyfer mis Ionawr, gan nad oes yr un syniad gennym beth fydd yn gyfreithlon o ddydd i ddydd! Rydyn ni'n ceisio trefnu cwis ar Zoom tua canol y mis, a gobeithio cwpl o bethau eraill ar-lein - gwyliwch ein tudalen Facebook am fwy o fanylion. Mae'r caffi ar agor am fwyd a diod i fynd ac yn gweini'r ddewislen lawn - gyda rhai pethau ychwanegol - pwy sy'n ffansio mwg o uwdd gyda mêl i fynd? Rydym hefyd yn ail-gychwyn ein "Gwledd nos Wener" bob wythnos - pryd o fwyd blasus wedi ei goginio yn Cletwr i chi fynd adref gydag ef a'i ail-gynhesu yn eich cegin. Poblogaidd iawn - rhaid archebu erbyn nos Fawrth bob wythnos. Hefyd, bydd y pop-ups yn y maes parcio yn parhau o bryd i'w gilydd.

Diolch i bawb a brynod docyn raffl y gacen Nadolig fawr i gefnogi Tyrone a MIND (yr enillydd oedd Ann Owen).

Mae cyfrif llawn Zoom gan Cletwr, felly os ydych chi am drefnu cyfarfod ar gyfer cymdeithas leol ayyb, bydd croeso i chi ei ddefnyddio.

Ond dyna i gyd. Mae'r siop yn dal ar agor wrth gwrs. Mae'r oriau agor ar y wefan, gyda digon o stoc i bawb. Os oes unrhyw awgrymiadau am ddigwyddiadau rydyn ni'n gallu eu trefnu ar-lein a fyddai o ddiddordeb i chi a'ch ffrindiau, rhowch wybod.

NC



Y Gair Olaf



Mae troad y flwyddyn yn llawn ystrydebau; cyfle i gefnu ar yr hen a chroesawu'r newydd, torri hen arferion ac addunedu i fyw'n well. Ac eto, nid yw'r flwyddyn newydd yn ddim ond rhif, un dydd ar ôl y llall, a hynny ym mherfeddion gaeaf. Does dim yn newydd yma, mewn gwirionedd, oes e? Ond, gellir dadlau fod y Calan eleni yn gefn deuddwr am fwy nag un rheswm a fydd yn hanesyddol arwyddocaol. Gwyddonwyr yn creu brechlyn yn y frwydr yn erbyn y coronafeirws, y Deyrnas Gyfunol yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a Joe Biden yn trechu Trump, un o arlywyddion mwyaf gwenwynig yn hanes yr Unol Daleithiau. I mi, mae dau o'r rhain yn cynnig gobaith am fyd gwell, am oleuni ac adfywiad. Ni welaf yr un rhinwedd i'r llall; yn eironig ddigon, nid hunan-ynysu yw'r ffordd ymlaen i wledydd blaengar, modern. Gyda throad y flwyddyn, mae'r dyddiau'n ymestyn...cam ceiliog bob dydd yn ôl y sôn, ac er yr holl ystrydebau, mae'n gyfle i ailosod y cwnpawd a chwilio am y pethau cadarnhaol hynny sydd yn gwneud bywyd yn werth ei fyw. I mi, rhaid dechrau wrth fy nhraed, un cam ar y tro, a gwneud y pethau bychain; ffordd o feddwl yw hi. Ac os yw un ystrydeb yn unig yn fy arwain at dorri cwys newydd er gwell yn yr hen Fyd hwn, mi fyddai hynny'n gam ymlaen. Deuparth gwaith ei ddechrau, wrth gwrs, ond ni bu dwthwn fel y dwthwn hwn. Amdani!

Arthur Dafis

Doniol

Fe wnaeth pâr ifanc benderfynu priodi ar y Radio yn hytrach na phriodi mewn capel oherwydd y Coronafeirws. Aeth y briodas yn iawn, ond yn anffodus roedd y derbyniad yn siomedig.

Diwrnod braf iawn oedd hi. Roedd ei gŵr newydd ddod yn ôl o fod allan ar y llyn yn pysgota felly dyma'i wraig yn penderfynu mynd allan yn ei gwch i ddarllen ei llyfr. Angorodd yn y canol a dechrau darllen. Daeth Warden y llyn draw yn ei gwch.

Bore da, be dech chi'n gwneud famma?

Darllen fy llyfr.

Dech chi ddim fod i sgota famma.

Dydwi ddim yn pysgota, rwy'n darllen.

Ond ma offer sgota yn y cwch, rhaid roi tocyn ichi fel cosb, sdim sgota i fod famma.

Ond darllen rydw i'n gwneud.

Ma'r offer 'da chi, gallech ddechrau sgota mewn munud.

Os felly rydw i am eich cyhuddo chi o ymosod arna i yn rhywiol.

Dwi heb dwth â chi.

Na ond mae gyda chi'r offer a gallech chi ymosod arni i unrhyw funud.

Ta ta, joiwch y darllen.

Gwleddoedd Nos Wener

Prydau wedi'u coginio yn Cletwr i'w cynhesu a'u mwynhau gartref trwy gydol mis Ionawr.

Archebwch erbyn dydd Mawrth bob wythnos trwy ffonio 01970 832113.

Gweler ein gwefan am y bwydlenni sydd i ddod.

www.cletwr.com

Cletwr



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF
gruffyddjones@googlemail.com

07594 349 354
01970 832 543

Gruffydd Jones
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

CHWARAEON



Rhai blynnyddoedd yn ôl, roedd yn draddodiad i chwarae gêm bêl-droed rhwng hen dîm Tal-y-bont a'r tîm presennol ar Wyl San Steffan. Dyma'r criw fu'n chwarae yn Rhagfyr 1985. Byddai pob un ohonynt yn chwarae i hen Dal-y-bont erbyn hyn...os o gwbl! Mae Bryn yn sefyll yr ail o'r chwith, nesaf at y diweddar Gwilym Felix Roberts.

Papur Pawb yn holi: Bryn Smith

Mae cysylltiad Bryn Smith â Chlwb Pêl-droed Tal-y-bont yn dyddio'n ôl i gyfnod ail-gychwyn y clwb yn yr 1970au. Ef oedd blaenwr mwyaf peryglus y tîm am dymhorau lawer ac ers ymddeol o chwarae, bu'n un o hoelion wyth y clwb. Bu Papur Pawb yn ei holi am ei oes o wasanaeth.

Pryd ddechreuast ti chwarae pêl-droed?

Rygbi oedd yn cael ei chwarae yn Ysgol Ardwyn a tenis-bwrdd oedd fy hoff gêm tan i mi ddechrau chwarae pêl-droed. Enillodd tîm o'r pentref gwpan Howell Williams (cystadleuaeth a drefnwyd gan Glwb Pêl-droed Machynlleth) ar y 29 Ebrill 1973 ac ar ôl hyn ail-ffurfiwyd clwb pêl-droed yn y Nhal-y-bont i chwarae yng Nghynghrair Pêl-droed Aberystwyth a'r Cylch. Dyma pryd ddechreuais chwarae pêl-droed o ddifrif.

Beth oedd uchafbwyntiau dy gyfnod yn chwarae i Dal-y-bont?

Cyrraedd ffeinal Cwpan Gogledd Ceredigion yn 1975/76 (colli yn erbyn Bryn-crug) a hefyd cyrraedd ffeinal Cwpan De Ceredigion yn y flwyddyn ganlynol a cholli unwaith eto yn erbyn Penrhynoch. Hefyd dod yn ail i Benrhynoch yn y Gynghrair ar ôl cael yr un faint o bwytiau â nhw. Yna yn 1980/81 enillwyd Cwpan Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch mewn gêm gyffrous yn erbyn Phoenix ar Goedlan y Parc Aberystwyth; 3-2 oedd y sgôr ac roeddwn yn ffodus i sgorio un o'r goliau. Ond yr uchafbwynt mwyaf i mi oedd chwarae yn yr un tîm o Dal-y-bont gyda fy mab Nicky.

Wyt ti'n gwybod faint o goliau sgoriest ti a pha un oedd y bwysicaf?

Yn anffodus does neb wedi cadw cofnodion o ganlyniadau'r clwb a does dim cofnod o'r goliau a sgoriwyd gan wahanol chwaraewyr. Ond dros gyfnod o 20 mlynedd yn chwarae gyda'r clwb rwy'n si ŵr fy mod wedi sgorio 300+ goliau. Wrth gwrs y gôl bwysicaf oedd yr un yn y ffeinal yn erbyn Phoenix.

Beth wyt ti wedi gwneud yn y byd pêl-droed ers i ti orffen chwarae?

Cefais gyfle i fod yn rheolwr ar Dal-y-bont am gyfnod a dwi wedi bod yn ysgrifennydd a thrysorydd y clwb. Hefyd 'rwyf yn drysorydd Cynghrair Cambrian Tyres a Chwpan Coffa Dai 'Dynamo' Davies. 'Rwy'n cynrychioli'r Gynghrair ar Gymdeithas Pêl-Droed Canolbarth Cymru ac yn gadeirydd Pwyllgor Dyfarnwyr y Gymdeithas. Hoffaf ddilyn Cymru yn y gemau cenedlaethol cartref ac rwyf wedi bod i sawl gêm oddi cartref. Wrth gwrs byddaf yn cefnogi Tal-y-bont pan fedraf. Af ar ambell i drip hefyd gyda fy ffrind Anthony i weld Abertawe yn chwarae.

Beth yw'r rhagolygon yn lleol ac yn genedlaethol yn 2021?

Mae Covid wedi rhoi stop ar bêl-droed yn lleol ac, fel mae pethau yn edrych yn awr, mae'n debygol na fydd dim pêl-droed lleol y tymor yma. Yn genedlaethol mae 2021 yn mynd i fod yn flwyddyn bwysig iawn i Gymru gydag Euro 2020 ym mis Mehefin y flwyddyn hon. Hefyd mae gemau gr ŵp Cwpan Y Byd 2022 yn dechrau ym mis Mawrth ac yn cael eu gorffen ar ddiwedd y flwyddyn. Mae tîm presennol Cymru yn cynnwys chwaraewyr gyda phrofiad a hefyd rhai ifanc, ac felly fe fydd y gemau hyn yn brawf iddynt. 'Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd y tîm yn datblygu.



Golff

Llongyfarchiadau i Julian Thomas, Glas y Ddôl, Tal-y-bont, ar ennill cystadleuaeth golff ddechrau Rhagfyr. Sgoriodd Julian 40 pwynt mewn cystadleuaeth Stableford ar ddiwrnod gaeafol yng Nghynghrair Gaeaf Clwb Golff Aberystwyth.

Athletwr Llwyddiannus

Cynhaliwyd ras 10 cilometr ar ddechrau Rhagfyr er mwyn elusennau lleol, gyda'r rhedwyr yn cystadlu dros gyfnod o wythnos. Yr enillydd yn y categori i ddynion 70 oed oedd Dai Dowsett, Is-y-coed, Tal-y-bont, yn yr amser anrhydeddus o 57 munud a 41eiliad. Llongyfarchiadau iddo.